

Gwnewch rywbeth ANHYGOEL – gadewch rodd barhaol

Efallai eich bod wedi'ch cyffwrdd gan un o'n hoperau, eich cynhyrfu gan ein Cerddorfa a'n Corws arbennig, neu eich ysbrydoli gan ein gwaith mewn ysbytai, ysgolion a'r gymuned. Drwy adael rhodd yn eich ewyllys, gallwch sicrhau bod eich angerdd am opera yn byw ymlaen a'n helpu ni i barhau i rannu grym, drama ac emosiwn opera gyda chynulleidfa mor eang â phosibl.

Pam ein bod angen rhoddion mewn ewyllysiau?

Fel elusen, mae Opera Cenedlaethol Cymru yn dibynnu ar gefnogaeth ariannol i ddarparu ei raglen gweithgareddau uchelgeisiol. Rydym yn cael y rhan fwyaf o'n hincwm gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr, gyda'r gweddill yn dod o werthiannau tocynnau, ymddiriedolaethau a sefydliadau, nawdd gan fusnesau, incwm a enillir a rhoddion gan gefnogwyr unigol, gan gynnwys rhoddion mewn ewyllysiau.

Mae rhoddion mewn ewyllysiau yn chwarae rôl allweddol yn cefnogi ein gweithgarwch a gwneud opera yn hygyrch i bawb.

Mae'n ddigon hawdd.

Ar ôl gofalu am y rheiny sydd agosaf at eich calon, gallwch gofio am WNO gyda:

- Rhan o'ch ystâdn
- Swm penodol o arian

Mae pob rhodd ym mhob ewyllys, waeth beth yw ei maint, yn werthfawr i ni ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Beth allai fy rhodd ei gefnogi?

Anghyfyngedig – Byddem yn eich annog chi i adael rhodd yn rhydd rhag amodau fel y gellir ei defnyddio lle bynnag y mae'r galw mwyaf ar y pryd.

Cyfyngedig – Fel arall, gellir cyfeirio eich rhodd at faes o'n gwaith sy'n bwysig i chi. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn, mae croeso ichi gysylltu â ni.

Cronfa Waddol – Gellir buddsoddi eich rhodd yn ein Cronfa Waddol, gan gynhyrchu incwm i gefnogi WNO a'i weithgareddau am flynyddoedd i ddod. Gall eich rhodd fod yn rhydd rhag amodau neu gael ei defnyddio i gefnogi maes o'n gwaith sy'n bwysig i chi.

Beth nesaf?

Os ydych chi'n gwneud ewyllys am y tro cyntaf byddem yn eich cynghori i gysylltu â chyfreithiwr.

- **Ysgrifennwch eich Ewyllys yn rhad ac am ddim gyda Guardian Angel** – Mae WNO wedi creu partneriaeth â'r arbenigwyr ysgrifennu ewyllys, Guardian Angel, sy'n cynnig gwasanaeth ysgrifennu ewyllysion ar-lein cyflym a syml lle mae pob un ewyllys yn cael ei gwirio gan arbenigwr cyfreithiol. Am ragor o wybodaeth ewch i gawill.uk/WNO.

Mae Guardian Angel hefyd yn cynnig gwasanaethau ysgrifennu ewyllys dros y ffôn ac wyneb yn wyneb i'r unigolion hynny y byddai'n well ganddynt drafod â chyfreithiwr yn uniongyrchol. I ddysgu mwy neu i wneud apwyntiad ffoniwch eu tîm ar 0800 773 4014.

Nodwch mai dim ond drwy'r Saesneg y mae Guardian Angel yn cynnig y gwasanaeth hwn.

Os oes gennych ewyllys eisoes gallwch ychwanegu atodiad swyddogol gyda chymorth eich cyfreithiwr. Mae atodiad yn eich caniatáu chi i ddiweddarau eich ewyllys heb orfod ei hail-ysgrifennu. Fel arall, gallwch ysgrifennu Llythyr Dymuniadau i gyd-fynd â'ch ewyllys. Nid yw'n gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ond gall arwain eich ysgutorion ac ymddiriedolwyr i sicrhau bod eich dymuniadau personol yn cael eu gwireddu.

Os ydych yn dymuno gadael rhodd i WNO bydd angen enw ein helusen, ein cyfeiriad a'n rhif elusen gofrestrdig ar eich cyfreithiwr: Opera Cenedlaethol Cymru Cyfyngedig, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL Rhif Elusen Gofrestrdig 221538

Os ydych yn dymuno gadael rhodd i'n Cronfa Waddol Cronfa Waddol Opera Cenedlaethol Cymru, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL Rhif Elusen Gofrestrdig 1146595

Lleihau eich treth etifeddiant

Bydd eich rhodd yn cael ei heithrio rhag treth etifeddiant a gallai eich helpu chi i leihau'r dreth sy'n daladwy ar eich ystâd. Os ydych yn gadael 10% neu fwy o werth net eich ystâd i elusen yn eich ewyllys, gall eich ystâd dalu treth etifeddiant ar gyfradd lai o 36% yn hytrach na 40%. Ym mhob achos, rydym yn eich cynghori chi i drafod â'ch cyfreithiwr.

Diolch

Os ydych wedi penderfynu gadael rhodd i WNO yn eich ewyllys neu'n bwriadu gwneud hynny, mae croeso i chi gysylltu â ni. Byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddiolch i chi am eich cefnogaeth ac i'ch diweddarau ynglŷn â'n gwaith.

Deallwn fod eich ewyllys yn fater preifat. Mae'r hyn yr ydych yn ei ddweud wrthym am eich rhodd yn parhau i fod yn gyfrinachol a deallwn y gall eich amgylchiadau newid yn y dyfodol. Rydym yn gwneud addewid i

- Beidio â gofyn am fanylion ynglŷn â maint neu fath eich rhodd
- Parchu eich dymuniadau
- Gwario eich arian yn ddoeth

I roi gwybod i ni am eich bwriadau neu i gael sgwrs gyfrinachol ynglŷn â gadael rhodd yn eich ewyllys i WNO, cysylltwch â Lorraine Rees – 029 2063 5014 lorraine.rees@wno.org.uk neu llenwch a dychwelwch y ffurflen amgaeedig yn yr amlen Radbost a ddarparwyd.

'Am flynyddoedd lawer, bu fy Mam â rhan hollbwysig yn y gwaith o redeg cangen Lerpwl a Gogledd Orllewin Lloegr o Gyfeillion WNO, ochr yn ochr â'm Tad a'm Nain. Hi hefyd oedd yr un a'm cyflwynodd i'r byd opera ac i WNO pan oeddwn i'n blentyn. Hi yw'r rheswm pam rydw i wrth fy modd ag opera a'r rheswm pam roeddwn i eisiau gweithio yn WNO. Trwy adael rhodd i WNO yn ei hewyllys, yn ei thro mae hi'n helpu i gadw opera yn fyw i mi ac i genedlaethau'r dyfodol.' Elspeth Harding, WNO Arweinydd Castio